**Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 03-03 (p4)**

**Dyddiad:** **13 Chwefror 2003**
**Amser:** **9.00 - 11.35am**
**Lleoliad:** **Shotton Paper, Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint**
**Teitl:** **Ymweliad y PDE ag Unol Daleithiau America: Hydref 6-12 2002**

Paratowyd a chymeradwywyd yr adroddiad sydd ynghlwm gan aelodau'r PDE a fu ar yr ymweliad.

**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD: YMWELIAD AG UNOL DALEITHIAU AMERICA; HYDREF 6-12 2002**

**Cyflwyniad**

1. Ymwelodd aelodau o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ag Unol Daleithiau America ar wahoddiad Adran Taleithiau'r UD o dan eu Rhaglen Ymwelwyr Gwirfoddol. Amgaeir y brîff a gynigir gan y Pwyllgor yn Atodiad A. Dechreuodd y rhaglen yn Washington a chanolbwyntiodd ar swyddogaeth y Llywodraeth Ffederal. Yn dilyn hyn ymwelwyd â Pittsburgh ar gyfer cynnal trafodaethau â swyddogion 'lleol' mewn ardal a oedd wedi wynebu problemau tebyg i'r rhai a wynebwyd yng Nghymru. Trefnwyd y rhaglen gyffredinol gan Adran yr UD - trefnwyd yr amser yn Pittsburgh gan Gyngor Pittsburgh ar gyfer Ymwelwyr Rhyngwladol.

2. Telerau'r Rhaglen Ymwelwyr Gwirfoddol yw y dylai cyfarfodydd a thrafodaethau fod yn agored ac yn anffurfiol. O ganlyniad, dylid ystyried pob adroddiad ar drafodaethau yn amhriodoladwy. Roedd y Pwyllgor yn hapus iawn ynghylch natur agored ac onest yr holl drafodaethau.

3. Hoffai Aelodau'r Pwyllgor gofnodi'n swyddogol ei ddiolch arbennig i Adran Taleithiau'r UD a'r holl bobl ac asiantaethau eraill a fu'n gysylltiedig â threfnu ymweliad mor werthfawr a buddiol iddynt.

4. Yn ddiamau dysgodd yr Aelodau lawer iawn o'r ymweliad a bu iddynt wneud cysylltiadau buddiol yn ystod yr wythnos. Yn anochel mae'r argraff a gafwyd yn adlewyrchu nifer cymharol isel y bobl a'r sefydliadau y bu i'r Aelodau gyfarfod â hwy yn ystod yr ymweliad - ac mae peryglon ynghlwm â chyffredinoli yn ei gylch. Mae'r adroddiad yn cydnabod hyn, yn ogystal â natur anffurfiol y trafodaethau, ac yn crynhoi'r prif gasgliadau o'r ymweliad mewn modd cyffredinol. Nid yw'r adroddiad ond yn cynnwys sylwadau'r Pwyllgor.

5. Yr aelodau o'r Pwyllgor a oedd ar gael ar gyfer yr ymweliad oedd:

Chris Chapman
Alison Halford
Alun Cairns
Mick Bates
Dafydd Wigley
Phil Williams

6 Aeth John Grimes a Siân Wilkins â hwy yn ogystal, sef Clerc a Dirprwy Glerc y Pwyllgor.

7. Ceir rhestr o'r sefydliadau a'r bobl y bu i'r aelodau gyfarfod â hwy yn Atodiad B - mae rhaglen lawn yr ymweliad (Atodiadau C1 a C2) ar gael ar ffurf copi caled.

**Cyffredinol**

8. Ymwelodd y Pwyllgor â'r Unol Daleithiau i ddysgu ynghylch ei brofiadau o ran adfywio economaidd a TGC band eang. Ceir poblogaeth o oddeutu 2.6 miliwn yn ardal Pittsburgh ac mae'r ardal yn wynebu newidiadau economaidd tebyg i'r rhai yng Nghymru yn dilyn dirywiad ei diwydiannau glo a dur. Mae hyn wedi arwain at newidiadau mawr yn yr ardal, er enghraifft, allfudiad oddeutu 350,000 o bobl sy'n chwilio am waith.

**Partneriaeth**

9. Y brif neges a gafwyd o'r ymweliad oedd y brwdfrydedd mawr ynghylch cynnal partneriaethau rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. Gwelwyd yn ogystal fod gan drigolion yr ardal agwedd gadarnhaol iawn. Prin iawn oedd y cwynion (os o gwbl) nad oedd rhywbeth wedi digwydd oherwydd nid oedd rhywun arall, er enghraifft y llywodraeth, wedi gwneud rhywbeth. Yr agwedd oedd y dylid chwilio am ateb i broblem. Serch hynny, daeth aelodau'r Pwyllgor i'r casgliad nad oedd mudiadau mor drefnus ag oeddent yn anelu at fod - ac efallai roedd gormod o fudiadau yn gyfrifol am yr un peth.

10. Teimlwyd bod dealltwriaeth glir yn bodoli o swyddogaethau. Cyfrifoldeb y llywodraeth mewn gwirionedd oedd darparu seilweithiau fel ffyrdd a dwr, hyd yn oed os oedd y sector preifat yn gyfrifol am eu hadeiladu ar gyfer datblygiadau arbennig. Ar y llaw arall, credwyd mai swyddogaeth y sector preifat oedd buddsoddi mewn eiddo ac asedau cynhyrchiol. Atgyfnerthwyd yr agwedd hon gan draddodiad hir o fuddsoddiadau gan y sector preifat drwy 'sylfeini' elusennol a diwydiannol ac ymrwymiad corfforaethol hirdymor i fuddsoddi mewn seilwaith cymdeithasol. Yn wir, thema a welwyd dro ar ôl tro yn ystod yr ymweliad oedd swyddogaeth sylfeini'r sector preifat a fuddsoddai 'hen arian' mewn rhaglenni i annog adfywiad economaidd. Er y gellid ystyried buddsoddiadau gan fudiadau masnachol yn ffordd o 'hybu eu buddiannau eu hunain' teimlwyd eu bod yn rhan o neges llawer ehangach sef y gallai pawb mewn rhanbarth elwa ar economi cryf a ffyniannus.

11. Thema arbennig arall oedd pwysigrwydd allweddol ffyrdd mewn unrhyw ddatblygiad. Hon oedd y flaenoriaeth gyntaf wrth ddatblygu, neu ailddatblygu, ardal ac er yr ystyriwyd pryderon ynghylch yr amgylchedd roedd cyd-ddealltwriaeth yn bodoli rhwng y gwahanol grwpiau y dylid caniatáu i ffyrdd gael eu hadeiladu i wasanaethu ardaloedd lle bo angen.

12. Roedd tystiolaeth o gysylltiadau agos rhwng y sector busnes ac academaidd mewn gwahanol drafodaethau. Enghraifft dda o hyn oedd ty gwydr Digidol Pittsburgh a ddechreuwyd ym 1999. Bu cynrychiolwyr o fyd diwydiant, prifysgolion ac o gyrff yn y sector cyhoeddus yn gysylltiedig â'r datblygiad hwn er mwyn ceisio adeiladu clwstwr diwydiannol yn gysylltiedig â chymhwyso System ar dechnoleg Sglodion. Credid bod y datblygiad hwn yn ddatblygiad sylweddol. Fe'n hysbyswyd yn ogystal y teimlwyd ei fod yn llawer iawn gwell na'r prosiectau deoryddion traddodiadol na allai oroesi yn eu tyb hwy heb ychwanegiadau parhaus o arian cyhoeddus. Cydnabyddwyd yn ogystal yr angen i gyfuno arbenigedd technolegol â gwybodaeth am fyd busnes. Awgryma'r tebygrwydd rhwng Cymru a Pittsburgh fod cyfleoedd da ar gyfer creu cysylltiadau rhwng y prifysgolion perthnasol.

13. Adlewyrchwyd yr agwedd eang ynghylch datblygu yn y flaenoriaeth a roddwyd i natur cymdeithasol a diwylliannol yr ardal. Roedd buddsoddi mewn celfyddydau, chwaraeon a thai yr un mor bwysig â buddsoddi mewn cynhyrchiant economaidd.

14. Roedd gan y trigolion agwedd agwedd gadarnhaol ac roeddent yn amlwg yn ymfalchïo yn rhanbarth Pittsburgh. Nid oedd bron dim tystiolaeth o gystadleuaeth rhwng ardaloedd o fewn y Rhanbarth. Er enghraifft, nid oedd fawr o wrthwynebiad amlwg i fuddsoddiadau yn Ninas Pittsburgh - credai pobl mewn ardaloedd amgylchynnol y byddent hwy yn elwa o lwyddiant y ddinas. Yn wir, efallai y byddent yn disgrifio eu hunain fel trigolion Pittsburgh i bobl o wledydd eraill.

**Cymorth Ariannol**

15. Yn ystod cyfnod cynnar y rhaglen cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Pwyllgor a'r Weinyddiaeth Datblygu Economaidd i drafod y cynlluniau cymorth sydd ar gael iddynt ar gyfer seilwaith a buddsoddiadau bychan. Er bod cymorth rhannol ar gael i fusnesau bychan ystyriwyd cyllid ar gyfer buddsoddiadau masnachol yn fater i'r marchnadoedd ariannol.

16. Yn lleol, gallai awdurdodau gynnig gostyngiadau o ran treth mewn ardaloedd lle roeddent yn dymuno denu buddsoddiadau. Ystyriwyd hyn yn ffordd o feithrin gogwydd cystadleuol yn hytrach na'n ffordd o ariannu pethau'n rhannol. 'cytundeb' i ddenu buddsoddwyr. Nid oedd cynlluniau o'r fath yn cael eu hariannu na'u rheoli oddi fry - ac felly roeddent yn golygu costau ychwanegol i ardaloedd a oedd eisoes yn dioddef dirywiad economaidd.

17. Yn ogystal, oherwydd bod cynlluniau o'r fath yn golygu colli refeniw lleol, roedd yn angenrheidiol iddynt gael eu cymeradwyo gan y Byrddau Ysgol (awdurdodau addysg) sef y brif

bobl a oedd yn derbyn trethi lleol. Adlewyrchwyd y partneriaethau cadarn a welwyd drwy gydol yr ymweliad yn y ffaith ei bod yn bosibl yn gyffredinol i dderbyn cymeradwyaeth o'r fath. Adlewyrchai hyn yn ogystal bwysigrwydd mawr mentrau o'r fath yn nhyb y trigolion.

**Gwerthuso/Cost pob tasg**

18 Bu i Aelodau o'r Pwyllgor holi pobl o awdurdodau cyhoeddus nifer o weithiau ynghylch cost pob tasg mewn gwahanol gynlluniau. Gan amlaf nid oeddent yn gwybod, a phan ddyfynnwyd ffigurau, ni chredid eu bod yn seiliedig ar unrhyw ddadansoddiad soffistigedig.

19. Awgrymwyd i ni nad oedd hyn yn syndod, ac yn wir, nid oedd y cynlluniau a oedd ar waith yn Pennsylvania wedi'u gwerthuso fawr ddim. Yn wir, tueddid i 'golli' canlyniadau anffafriol.

20. Ychydig iawn o'r bobl y bu i aelodau o'r Pwyllgor gyfarfod â hwy a gredai fod cyllid y sector cyhoeddus yn allweddol i ddatblygiad economaidd - manteiswyd arno os oedd ar gael. Fodd bynnag, os nad oedd ar gael tueddid i chwilio am ffynonellau eraill. Gellid dod i'r casgliad fod y diffyg diddordeb yng nghost pob tasg neu mewn gwerthuso yn adlewyrchu pwysigrwydd allweddol y sector preifat ym maes adfywio.

**Ardaloedd lle ceir Dirywiad**

21. Fe'n hysbyswyd bod oddeutu 350,000 o bobl wedi gadael rhanbarth Pittsburgh yn sgîl dirywiad economaidd. Roedd pryder arbennig mewn rhai ardaloedd ynghylch nifer y bobl ifanc a oedd yn gadael gan y gallai arwain at boblogaeth gynyddol ddibynnol oni fyddai camau'n cael eu cymryd yn ei gylch. Clywsom fod polisi ar waith yn Washington County i gadw pobl ifanc - er ni chawsom unrhyw fanylion ynghylch sut roedd hyn yn digwydd.

22. Fodd bynnag, teimlwyd bod parodrwydd i adael ardaloedd os nad oedd ganddynt ddyfodol economaidd yn yr hir dymor. Cyfeiriwyd yn ogystal at yr anawsterau yr oedd ffermwyr yn eu hwynebu ac yr ymateb unwaith eto oedd fod ffermydd nad oedd yn gwneud elw yn cael eu gadael a'u hanghofio. Nid oedd llawer o gydnabyddiaeth i swyddogaeth ffermwyr fel gwarcheidwaid cefn gwlad - efallai fod gormod o gefn gwlad i hyn fod yn ymarferol.

**Cynllunio**

23. Siaradodd y Weinyddiaeth Datblygu Economaidd ffederal ynghylch y cymorth yr oedd yn ei gynnig i 'ardaloedd â phroblemau economaidd' a phwysleisiodd fod angen i hyn gyd-fynd â'r cynllun datblygu ar gyfer yr ardal. Byddai'r Adran hefyd yn cynorthwyo â'r gwaith o baratoi cynllun o'r fath. Serch hynny, ni welsom lawer o dystiolaeth o gynlluniau o'r fath ac awgrymwyd i ni nad oedd adfywio economaidd yn cael ei gynllunio'n ofalus iawn mewn gwirionedd. I raddau helaeth, adlewyrchai drefn llywodraeth leol yn yr UD. Y lefel amlwg o ran maint y boblogaeth fyddai'r Sir - ond gan nad oedd ganddynt lawer o rym o ran datblygu economaidd

nid oedd fawr o ysgogiad i wneud hyn. Tueddai'r rhan fwyaf o ddatblygiadau ddigwydd o fewn y sector academaidd.

**Carchardai**

24. Awgrymwyd ar sawl achlysur fod lleoli carchar mewn ardal a wynebai broblemau economaidd yn ffordd dda o greu swyddi. Cynigiai gyflogaeth uniongyrchol yn y carchar ynghyd â chyfleoedd ar gyfer cyflenwyr cyfleusterau a gwasanaethau - ac roedd hefyd yn hwb i dwristiaeth yn sgîl ymwelwyr â'r carcharorion.

**Asiantaethau Cymorth**

25. Daethom i gysylltiad â nifer fawr o gyrff a oedd yn gysylltiedig ag adfywio economaidd. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gysylltiedig â chyllid cyhoeddus a phreifat ac roeddent yn gweithredu ar sail dim elw. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod gormod o gyrff o'r fath ac o ganlyniad roedd dryswch yn bodoli - ond ni chredai nifer fawr o drigolion yr UD fod hyn yn fater pwysig. Nid oedd yn glir a oedd y gwahanol gyrff yn wahanol iawn i'r cyrff yng Nghymru.

**Delwedd Cymru Dramor**

26. Cyn i ni glywed am y brif raglen cawsom gyflwyniad byr gan Lysgenhadaeth y DU yn Washington yn pwysleisio nad oedd delwedd Cymru yn Washington mor gryf â delwedd Yr Alban ac Iwerddon. Cyfeiriwyd at nifer uchel y trigolion o fewn yr UD a oedd yn credu bod ganddynt gysylltiadau â Chymru - bu i aelodau o'r Pwyllgor sylwi ar hyn ar ôl siarad â nifer o bobl. Crybwyllwyd ffigur o 5m ond datgelodd ymholiadau dilynol fod y cyfanswm yn nes at 2m.

27. Holwyd nifer o bobl yn ystod yr ymweliad ynghylch eu delwedd o Gymru ac er i un neu ddau honni fod ganddynt gysylltiadau teuluol, cadarnhawyd y gred nad oedd ond ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r wlad.

28. Nid yw'r diffyg ymwybyddiaeth o Gymru yn syndod ac mae'n adlewyrchu i raddau helaeth hanes mwy adnabyddus a'r cysylltiadau hirach rhwng Yr Alban ac Iwerddon â'r UD. Credai'r Llysgenhadaeth fod angen i Gymru fynd i'r afael â'r mater hwn. Credai'r Llysgenhadaeth mai'r strategaeth fwyaf effeithiol fyddai datblygu ein cryfderau yn hytrach na cheisio marchnata Cymru 'yn gyffredinol' a chanolbwyntio ar ardaloedd o fewn yr UD lle roedd cysylltiadau presennol neu amlwg. Mae angen yn ogystal ystyried cysylltiad Cymru â chynlluniau fel rhaglen Marshall. Er bod hyn yn denu pobl o dramor i'r DU - credwyd nad oedd llawer ohonynt yn dod i Gymru. Un posibilrwydd a ystyriwyd gennym oedd y dylai pob Llysgenhadaeth sicrhau bod ganddynt berson i weithredu fel pwynt cyswllt ynghylch materion yn ymwneud â Chymru.

**XplorionQuest**

29. Bu i'r 'Virtual Flight Theater' yn Explorian yn Pittsburgh a gynigiai ehediadau rhithwir mewn awyren i leoliadau yn y Rhanbarth ac a alluogai archwiliadau ar wahanol lefelau o fanylder greu argraff fawr ar yr Aelodau. Gallai system o'r fath fod yn werthfawr iawn o ran cynorthwyo darpar fuddsoddwyr i ddewis rhwng gwahanol safleoedd, ac efallai i ddewis rhestr fer o leoliadau i ymweld â hwy. Yn amlwg byddai datblygu system o'r fath yng Nghymru yn golygu gwaith mawr, ac ni fu i ni ymchwilio i hyn nac i'r costau. Serch hynny, teimlwyd ei fod yn rhywbeth y dylid ei ystyried mewn mwy o fanylder.

**Dau ddigwyddiad cymdeithasol**

30. Agwedd arbennig ar y rhaglen oedd y cyfle i aelodau'r Pwyllgor , mewn grwpiau o 2 neu 3, gael cinio â theulu Americanaidd yn eu cartref. Roedd rhai teuluoedd wedi bod yn gwneud hyn (yn wirfoddol) ers blynyddoedd lawer ac roedd yn enghraifft glir ac amlwg o ymrwymiad Americaniaid i groesawu aelodau'r Pwyllgor i'w gwlad a'u cartrefi. Dyma uchafbwynt yr ymweliad yn nhyb yr holl Aelodau. Roedd yn gyfle i ymlacio ac yn brofiad gwahanol a buddiol. Roedd hefyd yn gyfle i gyfarfod â phobl a'u teuluoedd y tu allan i sefyllfa waith, ac yn gyfle i drafod gwahanol faterion. Hoffai'r Pwyllgor gofnodi ei werthfawrogiad mawr i bawb a fu'n gysylltiedig â'r rhan hon o'r rhaglen. Cred y Pwyllgor yn ogystal y dylem geisio mabwysiadu cynllun o'r fath ar gyfer ymwelwyr â Chymru.

31. Yr ail ddigwyddiad cymdeithasol oedd y derbyniad a baratowyd ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor gan **'**St. David's Welsh Society of Washington', 'Welsh Society of Fredericksburg', Virginia a Chanolfan Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Marymount. Roedd yn enghraifft fuddiol arall o'r croeso a estynwyd i aelodau'r Pwyllgor yn ystod eu hymweliad gan yr Americaniaid ac roedd yn gyfle i gyfarfod â phobl mewn sefyllfa anffurfiol ac i siarad â hwy. Yn ddiamau mae'r cymdeithasau hyn yn cyflawni swyddogaeth werthfawr ar ran Cymru ac mae'r rhain yn gysylltiadau buddiol y dylid eu cynnal.

**TGC Band Eang**

32. Un gwahaniaeth mawr rhwng y DU a'r UD oedd nifer fawr y gweithredwyr telegyfathrebu bychan (er gwaethaf yr argraff mai cwmni teleffon Bell oedd yr unig gwmni o bwys). Roedd integreiddiad llawer dyfnach rhwng Band Eang, teleffonau, teledu cebl a gwasanaethau eraill. Credid bod marchnata llwyddiannus yn dibynnu ar 'becynnau' o nwyddau a gyflenwir lle mae cymorthdaliadau cysylltiedig yn cynnal elfennau nad ydynt yn gwneud gymaint o elw. Er enghraifft, fe'n hysbyswyd y byddai cwsmeriaid (mewn un ardal) yn talu oddeutu $25 y mis am fand eang - ond gan fod cost ei ddarparu yn $35-40 nid oedd ond yn ymarferol ei gynnig fel rhan o becyn o wasanaethau.

33. Y brif neges yma oedd yr angen i gadw opsiynau ar agor. Roedd ystyriaethau o ran cost yn allweddol ac o ganlyniad roedd yn bwysig defnyddio seilwaith a chysylltiadau presennol lle bo'n bosibl cyn belled ag y cellir cynnal safon y gwasanaeth. Roedd gwahanol dechnolegau yn

berthnasol mewn gwahanol sefyllfaoedd, ac o ystyried pa mor sydyn y gall pethau newid, gallai buddsoddiad gormodol mewn unrhyw dechnoleg arbennig olygu na all byd busnes ymdopi â newidiadau yn y dyfodol.

**Crynodeb o bwyntiau allweddol**

**Y materion cyffredinol allweddol a ddeilliodd o'r ymweliad oedd:**

34. Yr angen i hyrwyddo delwedd Cymru dramor. Y materion arbennig a ddaeth i'r amlwg yn y cyd-destun hwn oedd:

- cynyddu cysylltiad Cymru â rhaglen Marshall;
- cyflwyno cynllun yn cynnwys Cymry unigol yn croesawu ymwelwyr i Gymru;

35. Pwysigrwydd partneriaethau - rhwng y sector preifat, y sector cyhoeddus, busnesau a phrifysgolion. Ac agwedd glir o ran cydweithio ar gyfer un achos da.

36. Yr ystyriaethau allweddol o ran adfywio economaidd yn yr UD oedd:

- Pwerau i godi trethi lleol fel sail ar gyfer annog busnesau i leoli mewn ardaloedd arbennig;
- Ffyrdd a seilwaith yn gyffredinol;
- Y cyfleusterau diwylliannol a chwaraeon sydd ar gael.

37. O ran Band Eang, y brif neges oedd yr angen i gadw opsiynau ar agor ac i fod yn hyblyg o ran y dechnoleg ac unrhyw wasanaethau a gynigir i'r cyhoedd.

**Materion arbennig:**

38. XplorionQuest a gynigiai ehediadau 'rhithwir' i ddangos lleoliadau mewn gwahanol rannau o Gymru.

39. Credid bod ty gwydr Digidol Pittsburgh, o'r hyn a welwyd, yn enghraifft ddelfrydol o ddatblygiad yr hoffem ni ei weld yng Nghymru. Credir y gellir cyfiawnhau gwaith ymchwil pellach ynghylch y mater hwn.

40. Gwnaed nifer o gysylltiadau yn ystod yr ymweliad ac mae Aelodau unigol wrthi'n eu datblygu. Un cyswllt arbennig i'w nodi yw Roger Cranville, Uwch Is-Lywydd, 'International

Business Development' yn y 'Pittsburgh Regional Alliance' sy'n awyddus i gynorthwyo cwmnïau Cymreig i sefydlu cysylltiadau masnachu â Pittsburgh. Dinesydd o'r DU sy'n byw dramor yw Mr Cranville ac mae'n Uwch Is-Lywydd ac yn Gyfarwyddwr Rhanbarthol i'r 'British American Business Council' ar gyfer Rhanbarth Pittsburgh. Bydd yn ymweld â'r DU ar ddechrau 2003.

41. Gall lleoli carchar mewn ardal fod yn gyfle economaidd gwerthfawr.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**
**28 Ionawr 2003**

*Mae Fersiwn Saesneg y dogfen hwn yn cynnys atodiadau. Yn anffodus nid yw'r atodiadau hyn yn ar gael yn Gymraeg.*